2.1 Mae darparu cyfleoedd priodol ac integredig ar gyfer mynediad i ac o gwmpas y tri Pharc Cenedlaethol yn hollol berthnasol i waith pob Awdurdod. Er bod mwy na 85% o'r holl ymwelwyr sy'n defnyddio'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn cyrraedd yn eu ceir, mae trigolion rhai ardaloedd sy'n agos at y Parciau Cenedlaethol yn methu â chyrraedd y Parciau ar hyn o bryd gan oedd ganddynt gar. Er enghraifft, mae hyd at 40% o gartrefi rhai o gymunedau'r Cymoedd, sy'n agos at Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, heb gar. Wedi dweud hyn, mae llawer iawn o gartrefi yn y Parciau yn yr un sefyllfa; mae tua 20% o gartrefi ardaloedd Parciau Cenedlaethol Eryri ac Arfordir Penfro heb gar. Yn y ddwy enghraifft hon, mae'r unigolyn yn dibynnu'n fawr ar y ddarpariaeth drafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael i fodloni ei anghenion bob dydd neu i fwynhau adnoddau Parc Cenedlaethol.

2.2 Mae trafndiaeth yn effeithio ar waith Awdurdodau'r Parciau mewn tair ffordd amlwg. Fel Awdurdodau Cynllunio fe allant ddylanwadu ar y berthynas rhwng patrymau'r datblygiadau a symudiad traffig. Fel rheolwyr adnoddau, mae gan Awdurdodau'r Parciau ddiddordeb yn y modd y mae traffig a thrafnidiaeth yn effeithio ar amgylchedd y Parc a'i adnoddau naturiol. Yn olaf, fel sefydliadau sy'n gyfrifol am hybu mwyniant y cyhoedd, mae gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol ddiddordeb p'un a yw'r mynediad i'w hardaloedd ac o gwmpas y Parc (boed mewn car neu drafndiaeth amgen i'r car) yn hwylus ai peidio.

2.3 Mae cysylltiad clòs rhwng pob un o'r materion hyn, gan olygu bod trafndiaeth yn ganolbwynt i nifer o'r materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol sy'n berthnasol i Barciau Cenedlaethol heddiw. Felly, er mwyn datblygu agenda trafndiaeth gynladwy yn y Parciau Cenedlaethol mae'n rhaid gweithredu mewn dull integredig sy'n ymestyn ar draws sectorau, ac mae'n rhaid i'r dull hwnnw adlewyrchu anghenion ac amgylchiadau arbennig y Parciau Cenedlaethol.

3. Rôl y Parciau Cenedlaethol wrth gyflwyno Rhaglen Drafndiaeth Integredig

3.1 Mae'r Llywodraeth, a'r Cynulliad yn ddiweddar, wedi hen gydnabod y berthynas rhwng traffig, trafndiaeth

a datblygu priffyrdd mewn Parciau Cenedlaethol. O ganlyniad i hyn datblygwyd dulliau rheoli dros gyfnod sy'n ymdrin â materion priffyrdd a thraffig mewn Parciau Cenedlaethol mewn modd sensitif. Maent bellach wedi cael eu cynnwys mewn Penawdau Cytundeb a luniwyd rhwng Awdurdodau'r Parciau Cymru a Lloegr a Chymdeithas y Syrfewyr Sirol.

3.2 Mae pwysigrwydd y Cytundeb hwn a'r manylion geir ynddo (mewn perthynas â Hierarchy Ffyrdd, er enghraifft), yn pwysleisio'r ffaith ei fod yn sail ar gyfer datblygu polisiau cynllunio trafndiaeth strategol, fel y rhai mewn Cynlluniau Datblygu, ac yn rhoi ffordd i ymateb i unrhyw newidiadau angenrheidiol yn y broses. Yn ogystal â hyn, mae'n rhoi egwyddorion y gellir eu defnyddio wrth lunio rhaglenni trwsio ffyrdd, a mecanwaith ar gyfer asesu sut y mae newid yn debygol o effeithio ar gymeriad yr amgylchedd y Parciau.

3.3 Ar ôl sefydlu'r egwyddorion gwaith hyn, bydd pob Parc Cenedlaethol yn creu Cynlluniau Datblygu a Rheoli sy'n ategu dymuniad strategol y Parciau i integreiddio symudiad traffig gyda chynllunio defnydd tir. Er bod y raddfa ddatblygu mewn Parc Cenedlaethol fel arfer yn llai dwys nac ardaloedd eraill, mae'r strategau diweddaraf yn ceisio annog datblygiadau fwyfwy at ganolfannau gwasanaeth penodol sydd â chysylltiadau trafndiaeth da a phriffyrdd gerllaw. Ar y llaw arall, mae'r holl Parciau o ran egwyddor yn ceisio osgoi datblygu mewn ardaloedd diarffordd neu lle byddai angen mynedfeydd ar ddatblygiad o'r fath a fyddai'n debygol o niweidio cymeriad y dirwedd.

3.4 Mae Awdurdodau'r Parciau yn cefnogi dymuniad y Cynulliad i weld rhaglenni trafndiaeth yn cael eu hyrwyddo a'u cyflwyno drwy gyfrwng polisiau integredig mewn Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynlluniau Trafndiaeth Lleol. Yn wir, mae'n dda gweld bod barn Awdurdodau'r Parciau ar ddatblygiad ffyrdd a thrafnidiaeth yn cael eu bwydo erbyn hyn mewn i Gynlluniau Trafndiaeth Lleol ardaloedd pob Awdurdod. Gallai rhaglen waith yn sgîl Cynllun o'r fath leihau dibyniaeth y cyhoedd ar geir, a rhoi mwy o ddewis a chyfle i unigolion o ran teithio i'r Parciau Cenedlaethol ac o'u cwmpas. Byddai hynny'n fanteisiol iawn i waith rheoli ardaloedd y Parciau.

3.5 Ar wahân i'w rôl gynllunio, mae'r Parciau'n rhannu un diddordeb trafndiaeth pwysig arall. Hwn yw eu dymuniad i leihau dibyniaeth y cyhoedd ar y car ar gyfer siwrneiau hamdden. Am y rheswm yma mae pob un o'r Parciau yn cynorthwyo gyda nifer o fentrau trafndiaeth gyhoeddus (ceir enghreifftiau ohonynt isod).

3.6 Fodd bynnag, gan fod cyfrifoldebau Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol o ran trafndiaeth yn gyfyng, rhan fach yn unig sydd ganddynt yn narpariaeth a chyflenwad uniongyrchol y gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus lleol. Serch hynny, mae ganddynt rôl weithredol yn hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd am dulliau heblaw'r car o gyrraedd yr ardaloedd a theithio o'u hamgylch. Yn wir, mae'r ffaith fod y Parciau eu hunain yn lleoedd arbennig ym meddyliau'r cyhoedd yn golygu y gall yr Awdurdodau ddefnyddio gwahanol gyfleoedd addysgiadol a chyhoeddusrwydd i bwysleisio'r angen i fod yn ystyriol wrth ymgymryd â thrafnidiaeth yn yr ardaloedd hyn.

3.7 Mae Awdurdodau'r Parciau, fodd bynnag, yn cydnabod na fydd newid ymddygiad y cyhoedd neu annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus yn dasg hawdd. Rhaid rhoi cymhellion cenedlaethol, drwy weithredu rhaglenni trafndiaeth unigol ar gyfer pob un o'r tri Pharc Cenedlaethol a'u cyffiniau. Bydd gweithio mewn partneriaethau ac annog buddsoddiadau sylweddol yn narpariaeth a rhwydwaith y gwasanaethau yn hanfodol yn y cyd-destun hwn.

3.8 O ran darparu trafndiaeth ar gyfer cymunedau lleol, mae buddiannau'r gwahanol Awdurdodau yn debyg. Yn wir, maent yn cyfateb â'r rhai'r Awdurdodau Lleol sy'n cyffinio â hwy. Er nad yw'r Parciau Cenedlaethol yn brif ddarparwyr gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, maent am gydweithio gyda'r Awdurdodau Lleol ac ychwanegu at eu hymdrechion lle bynnag posibl.

4. Rhyddfrait Rheilffyrdd Unigol i Gymru

4.1 Er nad yw sefydlu Rhyddfrait Rheilffyrdd Unigol i Gymru yn hollol berthnasol i Awdurdodau'r Parciau, maent o'r farn y dylid darparu rheilffyrdd cludo pell ac agos i'r Parciau mewn modd sy'n adlewyrchu angen presennol y cyhoedd a thrwy broses effeithiol.

4.2 O ran hyn, byddai cyflwyno Rhyddfrait Rheilffyrdd Unigol Cymru ond yn fanteisiol. Fodd bynnag, er mwyn i'r trefniant hwn fod o fudd, rhaid tynnu sylw Gweithredwyr y Rheilffyrdd i'r materion mynediad sy'n effeithio ar y Parciau. Dim ond fel hyn y gellir diogelu'r rheilffyrdd ym mharthau mwyaf gwledig Cymru, sef ardaloedd y Parciau, a'u gwella lle bynnag posibl.

5. Mentrau rheoli traffig presennol ym Mharciau Cenedlaethol of Wales

5.1 Er nad oes ganddynt rôl uniongyrchol yn narpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, mae'r tri Pharc wedi cyflwyno mentrau rheoli traffig a mentrau thrafnidiaeth gyhoeddus llwyddiannus yn weddol ddiweddar.

5.2 Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos ffrwyth ymdrechion Awdurdodau'r Parciau i leihau dibyniaeth y cyhoedd ar y car ac i ddarparu dulliau amgen o deithio i'r Parciau ac o'u hamgylch. Maent oll yn weithredol ar hyn o bryd.

6. Parc Cenedlaethol Eryri

Sherpa'r Wyddfa a Menter Gogledd Eryri

6.1 Cyflwynwyd gwasanaeth bys Sherpa'r Wyddfa ddiwedd yr 80au i ymdopi â'r galw enfawr am leoedd parcio yn y mannau poblogaidd o amgylch yr Wyddfa a'i chriw. Ers hynny, mae'r rhwydwaith bysus wedi ehangu ac mae bellach yn darparu trafndiaeth gyhoeddus ar hyd yr holl ffyrdd allweddol at fynyddoedd poblogaidd y Parc a'i gyffiniau. Mae'r rhwydwaith presennol o wasanaethau bys wedi'u cysylltu i orsafoedd trên lleol ac yn galluogi'r rheiny sydd heb drafnidiaeth breifat i gyrraedd yr ardal, ynghyd â chynnig ffordd wahanol i'r sawl sydd â char i fwynhau ardaloedd mynyddig canol y Parc.

6.2 Mae datblygiad y rhwydwaith bys Sherpa hefyd yn adlewyrchu cytundeb partneriaeth cadarn a llwyddiannus, a adeiladwyd rhwng y Parc a dau Awdurdod lleol yr ardal. Darperir rhan fwyaf o'r gwasanaethau presennol o dan gytundebau a ariannir gan Gyngorau Gwynedd a Chonwy, gyda'r Parc Cenedlaethol yn ariannu newidiadau penodol i'r gwasanaeth. Mae'n gynllun anturus, ac adlewyrchir hyn gan y ffaith fod Awdurdod y Parc, ar y cyd â Chyngor Mynydda Prydain, wedi ariannu gwasanaeth gyda'r hwyr yn ystod yr haf yn arbennig ar gyfer gofynion dringwyr a cherddwyr. Yn ogystal â'r gefnogaeth y mae'n rhoi i'r gwasanaethau bys, mae Awdurdod y Parc hefyd yn ariannu holl ddeunydd cyhoeddusrwydd cynllun Sherpa.

6.3 Er yr holl amser ac adnoddau a fuddsoddwyd yn rhwydwaith bysus Sherpa dros yr ugain mlynedd diwethaf, nid yw wedi cyrraedd ei lwyr botensial mewn gwirionedd. Er bod y bysus wedi creu cyfleoedd newydd i'r rhai sydd heb geir i gyrraedd y Parc Cenedlaethol, a rhoi ffordd wahanol unigolion anturus i weld y golygfeydd a chrwydro'r mynyddoedd, cyfyng fu'r nifer o deithwyr ar y gwasanaeth. Dim ond yn rhannol y mae wedi cyflawni ei fwriad sylfaenol felly, sef gweithredu fel cynllun gadael y car.

6.4 Er y gwendidau hyn, yn ôl arolygon o ddefnyddwyr fod y gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio llawer mwy na nifer o wasanaethau bysus gwledig eraill yn yr ardal a'i fod yn denu pobl sydd ar wyliau yn yr ardal.

6.5 Gyda'r sylfaen cadarn hwn a'r enw da sydd gan wasanaeth Sherpa bellach, mae'r gwahanol Awdurdodau yn

yr ardal yn cydnabod mai'r rhwydwaith presennol o wasanaethau yw'r union ysgogiad, neu'r allwedd yn wir, i hybu agwedd newydd a chyffrous tuag at reoli a datblygu'r ardal yn gynladwy.

Menter Gogledd Eryri

6.6 Yn seiliedig ar gryfderau profiadau'r Sherpa, bwriad y Fenter newydd hon yw gwella'r gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ynghyd â chyflwyno mesurau rheoli traffig newydd mewn modd a fydd yn ysgogi datblygiadau busnes, cyfoethogi ansawdd amgylchedd yr ardal a gwella mwynhad y cyhoedd o'r Parc.

6.7 Gan dybio y gellid sicrhau arian i gael gwasanaeth rheolaidd sy'n addas i anghenion ymwelwyr ac o ystyried effeithiau'r cynllun ar nifer yr ymwelwyr a'r patrymau gwariant, rhagwelwyd bod gan y cynllun y potensial i greu gwariant cyffredinol ychwanegol o tua £12.3 miliwn y flwyddyn yn yr economi leol a allai gynnal tua 420 o swyddi yn yr ardal. Er mwyn cyd-fynd yn well â'r ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, mae gwaith ymchwil yn cael ei wneud i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau beicio yn cysylltu'r cymunedau i'r mynyddoedd a'r coedwigoedd poblogaidd ac i'r rhwydwaith bysus ei hun. Y gobaith yw y bydd hyn yn creu cyfleoedd mynediad a thrafnidiaeth ychwanegol newydd ac yn denu rhagor o fuddiannau economaidd i'r ardal i gyd.

6.8 I oruchwylio a chyfarwyddo'r Fenter, a sicrhau y bydd gennym ddigon o arian i redeg y manylion gweithredol, mae Partneriaeth o chwe chorff ac asiantaethau cyhoeddus wedi cael ei sefydlu. Mae Swyddog Project wedi cael ei phenodi am dair blynedd gydag arian y Partneriaid i gyd-drefnu'r cynllun. Yn y cyfamser, mae'r gwasanaeth Sherpa yn parhau i gael ei addasu er mwyn bodloni gofynion y defnyddwyr ac mae trafodaethau yn cael eu cynnal gyda'r cymunedau lleol i ennyn cefnogaeth ac i ddatblygu holl fanylion y cynllun.

6.9 Dyma gwmpas tebygol y Fenter hon yn y dyfodol:

Datblygu'r Rhwydwaith Mewnol o Drafnidiaeth Gyhoeddus

- Darparu gwasanaeth bys gwell ac integredig o fewn 5 mlynedd
- Darparu rhwydwaith mewnol bysus gwell ar hyd ymylon ffyrdd
- Cyfleusterau cyfnewid bysus yn y prif drefi
- Cyfleusterau cyfnewid bysus mewn safleoedd allweddol eraill gerllaw prif ardal y mynyddoedd
- Cyfleusterau cario beics ar drafnidiaeth gyhoeddus (bysus a threnau)
- Cyfleusterau Gwybodaeth Amser Cywir ar hyd y rhwydwaith ffyrdd ac yn y prif fannau twristaidd.

Darparu opsiynau mynediad amgen

- Rhaglen 5 mlynedd i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau beicio yn cysylltu cymunedau gyda'r safleoedd twristaidd poblogaidd a chyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus

Gwella cyfleusterau a rhwydwaith mewnol y priffyrdd

- Datblygu nifer o feysydd parcio diogel am gyfnod hir gyda chyfleusterau gwybodaeth ynddynt, a chyfleusterau rhwydwaith mewnol yn y prif drefi o gwmpas cyrion ardal y mynyddoedd, gyda gwasanaethau gadael y car.
- Gwella'r sefyllfa gyda lleoedd parcio yn y prif ardaloedd
- Gwella'r sefyllfa gyda pharcio wrth ymyl y ffordd
- Cynnal gwelliannau i'r coridor ffyrdd

Gweithredu ymgyrchoedd marchnata a chyhoeddusrwydd

- Ymgyrch codi ymwybyddiaeth am drafnidiaeth gyhoeddus

- Datblygu strategaeth farchnata ar gyfer y Fenter
- Datblygu Gwefan ar gyfer y Fenter yn cynnwys cynllunydd Taith a Gweithgareddau rhyngweithiol
- Cyflwyno cymhellion gyda thocynnau i ddenu pobl i ddefnyddio'r bys yn hytrach na'r car

Datblygiad busnes

- Rhaglenni i wella ystod ac ansawdd y gwasanaethau a'r rhwydwaith mewnol twristaidd.
- Datblygu hyrwyddiadau ar gyfer ymwelwyr sy'n eu hannog i beidio â defnyddio'r car.

Cyswllt cymunedol a chysylltiadau cyhoeddus

- Rhaglenni i gynnwys cymunedau lleol yn y broses o ddatblygu'r cynllun

Datblygu llwybrau beicio

6.10 Mae'r Parc Cenedlaethol wedi gweithio'n agos gyda SUSTRANS i ddatblygu Llwybr Beicio Cenedlaethol 'Lôn Las Cymru' drwy'r Parc.

6.11 Mae 13 cilomedr o'r Llwybr Cenedlaethol hwn yn dilyn tracwely hen reilffordd, ar dir sydd bellach yn berchen i Awdurdod y Parc. Mae'r llwybr yn cysylltu rheilffordd Arfordir Ceredigion gyda thref Abermaw ac yn mynd ar hyd aber afon Mawddach i dref farchnad Dolgellau.

7. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Glasffyrdd

7.1 Lanswyd cynllun Glasffyrdd ym 1994 a'i fwriad gwreiddiol oedd hyrwyddo mynediad cynaladwy i gefn gwlad de Sir Benfro. Roedd y gwaith yn canolbwyntio ar ddatblygu'r rhwydwaith o lwybrau cerdded, beicio a marchogaeth, gan roi sylw arbennig i'r cysylltiadau â phwyntiau trafniadaeth gyhoeddus, llwybrau mynediad i'r anabl, ac i raglenni a deunydd hyrwyddo a dehongli, gan gynnwys teithiau tywys ar hyd rheilffyrdd. Llwyddodd menter cysylltiedig i ddatblygu partneriaeth twristiaeth a chynnig pecynnau gwyliau cerdded yn Sir Benfro, gan gynnwys lety a thrafnidiaeth gyhoeddus.

7.2 £165,000 oedd cyfanswm y nawdd ar gyfer y 3 blynedd cyntaf, a'r Parc Cenedlaethol oedd un o'r pum partner craidd mewn cynllun a reolwyd gan y grp LEADER lleol, SPARC.

7.3 Mae Glasffyrdd bellach yn cael ei ailgyflwyno, a'i ailwampio i raddau, fel menter ar draws y sir i gydlynu a darparu projectau trafniadaeth gynaladwy a chodi ymwybyddiaeth ar faterion cludiant. Mae'r Swyddog Project Glasffyrdd, a fydd yn adrodd i'r Bartneriaeth, bellach yn gweithio yn uned trafniadaeth gyhoeddus y Cyngor Sir gan sicrhau felly y bydd y cynllun yn cytuno â dyletswyddau trafniadaeth lleol allweddol y Cyngor. Dyma amcanion drafft y fenter newydd:

- Hyrwyddo opsiynau teithio addas i bobl sydd am gael mynediad i gefn gwlad Sir Benfro am resymau hamdden ac adloniant.
- Ychwanegu gwerth i'r gwasanaethau trafniadaeth gyhoeddus presennol ac arfaethedig a chynyddu gwariant ymwelwyr mewn cymunedau gwledig drwy annog cynnydd yn nifer y defnyddwyr a hyrwyddo gweithgareddau adloniant a hamdden addas.

iii. Hyrwyddo ymwybyddiaeth am faterion a chyfleoedd yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus gynladwy, gan gynnwys eu heffaith amgylcheddol a chymdeithasol.

iv. Monitro a mesur effeithiolrwydd rhaglen Glasffyrdd.

v. Gwella adnoddau mynediad i gefn gwlad i bawb beth bynnag fo'u hincwm neu anabled.

vi. Datblygu a chyd-drefnu cynllun busnes hirdymor sy'n ystyried strategau'r Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a rhaglenni a mentrau'r Cyngor Sir ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Canllaw ar gyfer Trafnidiaeth Gyhoeddus, Llwybr Cenedlaethol Arfordir Penfro

7.4 Yn ystod haf 2000 cyhoeddwyd rhifyn 4 y canllaw dyfeisgar hwn sy'n dangos sut y mae cyrraedd y Llwybr Cenedlaethol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Fe'i cynhyrchwyd gan ymgynghorwyr TLF ar ran Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'r Cyngor Cefn Gwlad, ac maen rhoi gwybodaeth fanwl ar wasanaethau, tocynnau bargaen ac ati yn ogystal â chyngor ymarferol ar drefnu taith yn defnyddio'r pwyntiau a mannau trafndiaeth gyhoeddus presennol. Mae'r canllaw hefyd i'w weld ac wedi'i ddiweddarau ar wefan yr Awdurdod (gellir ei weld hefyd drwy fynd at safle Countrygoer).

7.5 Mae'r canllaw hwn yn helpu i gael gwared â'r gred nad yw'r rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus presennol fawr o werth ymarferol os yw rhywun am fwynhau cefn gwlad. Mae defnyddwyr wedi ei groesawu'n frwd, ac mae'n bosibl iawn y gellir defnyddio'r cyfrwng hwn yn ehangach i godi ymwybyddiaeth am gyfleoedd hamdden ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Parcio a Theithio: Dinbych-y-Pysgod a Thyddewi

7.6 Mae cynllun Parcio a Theithio wedi cael ei sefydlu yn Ninbych-y-Pysgod ers amser, ond ym 1999 daeth gwasanaeth cyffelyb i Dyddewi. Sefydlwyd y ddau gynllun gan Bartneriaeth, gydag arian gan Gyngor Sir Benfro, y sector preifat ac, yn achos Tyddewi, Awdurdodau'r Eglwysi Cadeiriol. Mae'r ddau wasanaeth yn rhedeg yn ystod wythnosau gwyliau'r haf, ac yn cludo pobl o'r meysydd parcio i ganol y ddwy dref. Eleni roedd gwasanaeth Tyddewi yn rhedeg teithiau bore a phrynhawn i Borth Mawr, gan wasanaethu traeth mwyaf poblogaidd yr ardal ymysg ymwelwyr a'r hostel ieuentid ar y Llwybr Cenedlaethol. Mae'r ddau wasanaeth yn rhad ac am ddim i deithwyr ac yn rhedeg o'r meysydd parcio sy'n codi tâl. Teithiodd tua 30,000 o bobl ar wasanaeth Dinbych-y-pysgod ym 1999 a 5,000 ar wasanaeth Tyddewi. Mae canlyniadau cynnar yn dangos cynnydd o 50% yn nifer y teithwyr ar wasanaeth Tyddewi eleni.

7.7 Y bwriad ar gyfer 2001 a'r dyfodol yw ceisio ehangu cynlluniau Dinbych-y-pysgod a Thyddewi, ynghyd â chreu cynllun newydd yn Saundersfoot, a'u cysylltu gyda strategau parcio a rheoli traffig cynhwysfawr ar gyfer y tair tref.

Cynllun Pâl Gwibio

7.8 Cyflwynwyd y Cynllun Pâl Gwibio yn 2000 ac fe'i rheolir gan Gyngor Sir Benfro mewn cydweithrediad â Menter Preseli (y grp LEADER lleol) a'r Parc Cenedlaethol. Caiff ei ariannu'n helaeth gan gyfraniadau o gynllun cymhorthdal bysus gwledig y Llywodraeth. Mae'n darparu gwasanaeth newydd o Dyddewi i Aberdaugleddau ar hyd lonydd arfordirol Bae San Ffraid, gan gau'r bylchau sylweddol yn y rhwydwaith gwasanaeth bys arferol.

7.9 Cafodd ei lunio ym 1999 ar fyr rybudd, a chafwyd ychydig o dan 1,500 o deithwyr y flwyddyn honno. Disgwylir i'r nifer gynyddu'n sylweddol yn 2000 wrth i ragor o bobl ddarganfod y gwasanaeth a chynefino

gydag ef. Mae'r cynllun yn seiliedig ac yn elwa ar y profiad a gafwyd gyda'r gwasanaethau "bysus heicio" arbrofol yr arferai Awdurdod y Parc ei redeg.

7.10 Bwriedir adeiladu ar lwyddiant y Pâl Gwibio yn 2001 a thu hwnt, gan ehangu gwasanaethau a chreu rhai newydd i gyrraedd y rhannau hynny o'r Parc Cenedlaethol heb system drafnidiaeth gyhoeddus dda, yn ogystal â chreu gwasanaeth bws mini helaeth o gwmpas ardal penrhyn Dewi.

8. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Bysus y Bannau

8.1 Lluniwyd Partneriaeth Bysus y Bannau ym 1998 ar ôl dechrau rhwydwaith peilot o wasanaethau ar ddydd Sul. Ers hynny mae wedi mynd o nerth i nerth a bellach mae 21 o sefydliadau ac unigolion yn aelodau. Mae'r Partneriaeth yn cynnwys gweithredwyr ac arbenigwyr cludiant preifat, sefydliadau twristiaeth a buddiannau'r sector cyhoeddus. Awdurdod y Parc Cenedlaethol sy'n rheoli'r Partneriaeth ar hyn o bryd.

8.2 Rhwydwaith arbennig yw Bysus y Bannau sy'n rhoi dewis o drafnidiaeth gyhoeddus i wasanaethu Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a'r fro. Mae'r rhwydwaith yn cael ei ddatblygu'n barhaus, ond ym 1999 trefnodd nifer o wasanaethau bys a thrên masnachol a chymorthdaledig yn cysylltu'r Parc Cenedlaethol gydag Abertawe, Caerdydd, Casnewydd, Y Fenni a Henffordd.

8.3 Nod Bysus y Bannau yw cael rhwydwaith trafndiaeth gyhoeddus integredig a fydd yn:

a) Darparu mynediad amgylcheddol gynladwy i ac o'r Parc Cenedlaethol, ac o gwmpas yr ardal, ar gyfer pobl sydd heb ddull teithio neu sy'n dewis peidio â defnyddio'r car

b) Rhan o rwydwaith gwyrdd gyda ffyrdd heb geir, gan gynnwys llwybrau cerdded

a beicio

c) Cynnyrch twristaidd yn ei hun, yn cynnig ystod o gyfleoedd ar gyfer ymwelwyr dydd ac nos yn yr ardal, a fydd hefyd yn gysylltiedig â rhaglen o ddigwyddiadau adloniant a diwylliant ledled y Parc Cenedlaethol.

8.4 Sefydlwyd Bysus y Bannau ers tair blynedd bellach ac mae nifer y teithwyr ar y bysus sy'n cludo pobl i'r Parc yn cynyddu bob blwyddyn. Trefnwyd ymgyrch marchnata a hyrwyddo helaeth ar gyfer y project, er mwyn codi ymwybyddiaeth am y Parc Cenedlaethol a dulliau cynladwy o'i gyrraedd.

8.5 Yn 2000 datblygwyd elfen bwysig newydd yn rhan o'r project; y Bws Beics. Bu'n llwyddiant ysgubol ac nid oedd digon o'r bysus ar gael ddiwedd y tymor gwyliau i ateb y galw fu amdanynt. Dangosodd hyn bod yma farchnad eang sy'n tyfu o hyd.

8.6 Mi ddylai'r Cynulliad gydnabod bod yna botensial mawr i ddenu pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus drwy ddarparu cyfleuster cludo beics ar bob math o gludiant. Yn amodol ar gyllid, bydd Bysus y Bannau yn gweithio ar ddatblygu dyluniad y trelar beics. Bydd hyn yn galluogi pobl i lwytho eu beics yn gyflym a hwylus, ac yn gwneud cludo beics yn beth naturiol ar gyfer teithio i'r gwaith yn ogystal â theithiau hamdden. Mae gan hyn oblygiadau hefyd ar gyfer y ddadl ynglŷn â Rhyddfrait Rheilffyrdd Unigol Cymru.

8.7 Dyma'r tasgau allweddol y bydd Partneriaeth Bysus y Bannau yn ymgymryd â hwy:

- Datblygu partneriaethau sector cyhoeddus/preifat er mwyn sicrhau arian i'w ddsbarthu i wella trafndiaeth gyhoeddus i mewn ac allan o'r Parc, ac o gwmpas y Parc
- Datblygu teithiau trelar beics eraill at ddibenion hamdden
- Cynlluniau meysydd parcio a rheoli traffig fydd yn creu arian ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus well yn y Parc Cenedlaethol
- Hyrwyddo a marchnata yr holl ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus i mewn ac allan o'r Parc, ac o'i gwmpas
- Cynnal arolwg o breswylwyr i bennu'r anghenion a'r patrymau teithio a'r hyn sy'n eu hatal rhag defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd
- Hwyluso cysylltiadau rhwng y cyfryngau teithio.

9. Casgliad

9.1 Mae'r Parciau Cenedlaethol yng Nghymru yn ardaloedd arbennig iawn. Nid pobl leol yn unig sy'n eu gwerthfawrogi, ond hefyd yr ymwelwyr a ddaw yn eu ceir o drefi ymhell o ffiniau'r Parc. Fodd bynnag, wrth chwilio am gyfleoedd i ddianc o str bywyd y dref, mae nifer o'r ymwelwyr hyn yn ychwanegu at y traffig, y llygredd a'r niwed amgylcheddol sydd bellach mor amlwg yn nifer o'r ardaloedd poblogaidd yn y Parc Cenedlaethol.

9.2 Mae'r Cynulliad am weld trafndiaeth gyhoeddus yn cael ei hyrwyddo a phobl yn dibynnu llai ar geir. Dylai gydnabod, fodd bynnag, fod arferion teithio'r ymwelwyr trefol hynny yn cael effaith uniongyrchol ar gyflwr Parciau Cenedlaethol Cymru. Efallai nad yw traffig y Parciau Cenedlaethol ar y cyfan mor wael â thraffig rhai ardaloedd trefol neu gyrion rhai o'r trefi, ond mae effeithiau siwrneiau ceir ar ardaloedd penodol yn y Parciau yr un mor ddrwg yn aml.

9.3 At hyn, fel nifer o ardaloedd gwledig eraill Cymru, mae trigolion y Parciau Cenedlaethol yn wynebu problemau gyda theithio ac maent yn dibynnu'n helaeth ar eu ceir.

9.4 O ystyried yr amgylchiadau hyn, mae gan Parciau Cenedlaethol Cymru rai anghenion neilltuol o ran trafndiaeth gyhoeddus.

9.5 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru felly'n cefnogi'r farn bod yn rhaid integreiddio a gwella gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus a'r rhwydweithiau mewnol yn eu hardaloedd. Un o amcanion pwysicaf y tri Pharc Cenedlaethol yw hwyluso teithio i bobl i'r Parciau ac o'u cwmpas a lleihau dibyniaeth y cyhoedd ar y car heb gyfyngu ar deithiau personol.

9.6 Mae'r Parciau Cenedlaethol o'r farn y gallant wneud cyfraniad gwerthfawr i'r agenda hon. Mae perthnasedd eu rôl yn hyn yn cael ei adlewyrchu yn llwyddiant y cynlluniau hynny y maen't wedi bod yn gysylltiedig a hwy. Trwy ddatblygu mentrau partneriaeth sy'n gwella cyfleoedd ar gyfer trafndiaeth gyhoeddus ac sy'n rhoi gwell dewis i bobl sy'n teithio, cred yr Awdurdodau y gallant helpu i leihau dibyniaeth y cyhoedd ar geir.

9.7 Yn ogystal â'r cyfraniad hwn, mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol hefyd yn cydnabod na ellir cyflawni'r amcanion tymor hir o ran datblygu systemau trafndiaeth gynladwy yn hawdd nac yn gyflym. Bydd angen hyblygrwydd a sensitifrwydd, cyllid uwch a'r lefelau priodol o wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus effeithiol. Bydd hefyd angen rhagor o gymhellion i annog pobl i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, ynghyd â mesurau dyfeisgar i reoli'r galw a lliniaru effaith y car ar yr amgylchedd.

9.8 Rhaid i ddarparwyr yr holl wasanaethau trafndiaeth gyhoeddus sylfaenol gydnabod a datblygu ffyrdd o gynnig gwasanaethau sy'n adlewyrchu anghenion arbennig y Parciau Cenedlaethol. Trwy gydweithio ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, gellid ateb gofynion y bobl leol a rhai'r ymwelwyr.

